Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffonau symudol mewn ysgolion

## Canllawiau drafft i helpu ysgolion i wneud rheolau clir a theg



2026

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG55129
ISBN 978-1-80853-295-5

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o'n canllawiau drafft am ddefnyddio ffonau symudol mewn ysgolion yng Nghymru.




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru

**Ebost:** CMIA.SATE@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cwblhewch ein ffurflen ar-lein i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

# Cynnwys

**Am y canllawiau drafft yma** ........ 4

**Pam mae ysgolion angen rheolau am ffonau symudol** ........ 5

**Ar gyfer pwy mae'r canllawiau drafft yma** ........ 8

**Beth ddylai ysgolion ei wneud** ........ 9

**Ffyrdd mae ysgolion yn gallu cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol** ........ 11

**Pethau y dylai ysgolion feddwl amdanyn nhw** ........ 16

**Creu'r rheolau** ........ 20

**Rhoi'r rheolau ar waith** ........ 22

**Beth sydd angen i bawb ei wneud** ........ 24

**Edrych ar y rheolau** ........ 26

**Defnyddio ffonau symudol yn ddiogel** ........ 27

# Am y canllawiau drafft yma



Rydyn ni eisiau i ysgolion osod rheolau ar gyfer defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol.





Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.



Darllenwch y canllawiau drafft yma. Yna anfonwch beth rydych chi'n feddwl i ni gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb.

# Pam mae ysgolion angen rheolau am ffonau symudol



Mae ffonau symudol yn gallu bod yn ddefnyddiol, ond maen nhw hefyd yn gallu achosi problemau.

**Mae ffonau yn gallu:**



- Effeithio ar ddysgu.




- Gwneud bwlio yn waeth.



- Effeithio ar iechyd meddwl.




- Effeithio ar ba mor dda rydych chi’n ei wneud yn yr ysgol.




- Effeithio ar eich lefelau cwsg ac egni yn yr ysgol.



Rydyn ni’n gwybod bod technoleg yn bwysig. Ond mae’n rhaid ei ddefnyddio yn y ffordd iawn.

**Mae ffonau symudol hefyd yn gallu:**



- Helpu i'ch cadw'n ddiogel.



- Helpu chi i reoli eich iechyd.



- Cael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer dysgu.



Mae angen i ysgolion feddwl am y da a'r drwg.

# Ar gyfer pwy mae'r canllawiau drafft yma



Mae'r canllawiau drafft yma ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg yn bennaf.

**Mae hyn yn cynnwys:**



- Cynghorau lleol.
- Llywodraethwyr ysgol.
- Arweinwyr ysgolion.
- Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- Ysgolion annibynnol.





Fe ddylid dweud wrth rieni, gofalwyr a dysgwyr hefyd beth ydy rheolau'r ysgol.

# Beth ddylai ysgolion ei wneud




Fe ddylai pob ysgol yng Nghymru gael ei pholisi ffôn symudol ei hun.



Mae polisi yn set ysgrifenedig o reolau. Fe ddylai'r polisi helpu:



- Cadw dysgwyr yn ddiogel.



- Cefnogi dysgu.



- Cefnogi lles.



- Llai o fwlio.




- Gwneud rheolau'n glir i bawb.



- Gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg.

# Ffyrdd mae ysgolion yn gallu cyfyngu ar y defnydd o ffonau symudol



Fe ddylai ysgolion ddewis rheolau sy'n gweithio orau i'w dysgwyr.

## Dewisiadau

### Dim ffonau symudol yn yr ysgol



Dyma ffordd glir a hawdd o reoli ffonau symudol.



Ond mae'n gallu gwneud cyswllt brys yn anoddach.



Fe fyddai angen i ysgolion feddwl am ddysgwyr sy'n defnyddio eu ffonau symudol ar gyfer eu hiechyd. Er enghraifft, i reoli diabetes.

## Gofyn i ddysgwyr gyflwyno eu ffonau symudol pan fyddan nhw'n cyrraedd yr ysgol



Mae dysgwyr yn gallu defnyddio ffonau symudol cyn ac ar ôl yr ysgol.



Fe fyddai'n ffordd hawdd o gyfyngu ar y defnydd o ffôn symudol.



Mae hyn yn gallu cymryd llawer o amser i'w wneud.



Fe fyddai ysgolion angen staff i reoli hyn. Fe fyddai angen iddyn nhw ddod o hyd i le diogel i storio ffonau symudol.



Gallai fod risg o golli neu ddifrod.

## Cadw ffonau symudol mewn loceri neu le diogel



Mae ffonau symudol yn cael eu cadw mewn lle diogel tan ddiwedd y dydd.



Mae dysgwyr yn gallu defnyddio eu ffonau symudol wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno.



Fe fyddai hyn yn costio arian ac amser staff i ysgolion.

## Byth yn cael ei ddefnyddio, byth yn cael ei glywed




Mae dysgwyr yn cadw ffonau symudol gyda nhw, ond ddylen nhw byth eu defnyddio na'u clywed.



Rhaid bod camau gweithredu ar gyfer dysgwyr sy'n torri'r rheol fel gorfod aros ar ôl ysgol neu cymryd eu ffôn symudol oddi arnyn nhw.




Mae hyn yn anodd ei reoli. Mae ffonau symudol yn gallu cael eu camddefnyddio.

## Ffonau symudol sy’n cael eu defnyddio mewn mannau penodol neu ar adegau penodol



Mae hyn yn gallu gweithio’n dda i ddysgwyr hŷn.



Mae hyn yn anodd ei reoli. Mae ffonau symudol yn gallu cael eu camddefnyddio.

# Pethau y dylai ysgolion feddwl amdanyn nhw



- Oedran y dysgwyr. Efallai y bydd angen rheolau llymach ar ddysgwyr iau.




- Risgiau diogelwch fel gwylio cynnwys niweidiol ar-lein a bwlio.



- Sut mae ffonau symudol yn effeithio ar ddysgu.



- Anghenion dysgwyr fel anghenion meddygol ac anghenion dysgu ychwanegol. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn defnyddio ffonau symudol i gael cymorth ychwanegol.



- Dysgwyr heb ffonau symudol.



- Gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg.



- Gofalwyr ifanc a phlant sy’n derbyn gofal. Efallai y byddan nhw eisiau cysylltu â chartref yn ystod y diwrnod ysgol.



- Teithio i’r ysgol ac oddi yno.



- Teithiau ysgol.



- Sut mae ffonau symudol yn gallu cael eu defnyddio yn ddiogel ar gyfer dysgu.




Ni ddylai unrhyw ddysgwr gael ei drin yn annheg gan bolisi ffôn symudol yr ysgol.



Fe ddylai ysgolion gael ffordd glir i rieni neu ofalwyr ofyn am newidiadau i'r rheolau ar gyfer eu plentyn.



Er enghraifft, os ydy rhywbeth yn digwydd gartref, ac mae angen i rieni neu ofalwyr allu cysylltu â'u plentyn.



Fe ddylid cytuno ar unrhyw newidiadau a'u hysgrifennu i lawr.



Fe ddylai staff wybod sut i gefnogi'r dysgwr.



Fe ddylid trin newidiadau yn ofalus.

# Creu'r rheolau



Fe ddylai ysgolion esbonio pam fod angen y polisi. Fe ddylen nhw ddangos sut y bydd yn dda i ddysgwyr.

**Fe ddylen nhw:**




- Edrych ar dystiolaeth ac edrych i weld beth sy'n gweithio a beth sydd ei angen.




- Gwrando ar ddysgwyr, staff, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr.




- Meddwl am eu dyletswyddau i:
  - Cadw pobl yn ddiogel.
  - Trin pobl yn deg.
  - Cadw gwybodaeth yn ddiogel.




- Gwneud yn siŵr bod y polisi yn gweithio gyda pholisïau eraill. Er enghraifft, am ymddygiadau a lles.



Mae ysgolion yn gallu gofyn i bobl beth maen nhw'n feddwl. Er enghraifft, gan ddefnyddio arolygon, cyfarfodydd, grwpiau ffocws neu gynghorau ysgol.

# Rhoi’r rheolau ar waith



Fe ddylai ysgolion gyflwyno’r polisi yn glir, fel bod pawb yn deall y rheolau.



Maen nhw’n gallu defnyddio pethau fel posteri, cyfryngau cymdeithasol, neu gyfarfodydd.



Mae ysgolion yn gallu dechrau rheolau newydd yn araf dros amser. Fe fydd hyn yn helpu dysgwyr i ddod i arfer â nhw.



Fe ddylen nhw esbonio beth fydd yn digwydd os bydd rhywun yn torri’r rheolau. Fe ddylai gweithredoedd fod yn glir ac yn deg.




**Er enghraifft, mae'r ysgol yn gallu:**

- Rhoi rhybudd.



- Cymryd y ffôn symudol i ffwrdd am gyfnod byr.

- Siarad â'r dysgwr.



- Cadw ar ôl ysgol.

- Cysylltu â rhieni neu ofalwyr.



- Cofnodi beth sydd wedi digwydd.

# Beth sydd angen i bawb ei wneud



**Arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion**

Fe ddylai arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion wneud yn siŵr bod y polisi yn glir, yn deg, ac yn cael ei edrych arno o leiaf unwaith y flwyddyn.



**Staff**

Fe ddylai staff ddilyn y polisi a helpu dysgwyr i ddeall y rheolau.



**Dysgwyr**

Fe ddylai dysgwyr ddilyn y rheolau a defnyddio technoleg yn ddiogel ac yn gyfrifol.

**Rhieni a gofalwyr**



Fe ddylai rhieni a gofalwyr gefnogi polisi’r ysgol.

Fe ddylen nhw osgoi cysylltu â dysgwyr yn ystod gwersi, oni bai ei fod yn argyfwng.

# Edrych ar y rheolau



Fe ddylai ysgolion edrych I weld os ydy'r polisi yn gweithio.




Fe ddylen nhw edrych arno yn aml, o leiaf unwaith y flwyddyn.




I edrych os ydy'r polisi'n gweithio, mae ysgolion yn gallu edrych ar:

- Gwybodaeth am ymddygiad.
- Presenoldeb.
- Arolygon lles.
- Adborth gan ddysgwyr, staff, rhieni a gofalwyr.
- Pa mor aml mae ffonau symudol yn achosi problemau.

# Defnyddio ffonau symudol yn ddiogel



Fe ddylai ysgolion hefyd ddysgu dysgwyr sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel.



**Mae hyn yn cynnwys dysgu am:**

- Amser sgrin – peidio â threulio gormod o amser yn edrych ar sgriniau.




- Gosodiadau preifatrwydd.
- Cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel



- Seiberfwlio – bwlio sy'n digwydd ar-lein.
- Trin pobl gyda pharch ar-lein.



Fe ddylai rheolau ffôn symudol helpu ysgolion i fod yn llefydd diogel, tawel a ffocws i ddysgu.



Fe ddylai’r rheolau amddiffyn dysgu a lles.



Fe ddylai’r rheolau hefyd wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247